Rhif: **WG25080**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru

# Crynodeb gweithredol

## Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Ymgynghoriad ar y cod ymarfer mewn perthynas ag Eiriolaeth o dan Ran 10 a rhannau cysylltiedig o'r Ddeddf

Dyddiad cyhoeddi: **8 Mai 2015**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **31 Gorffennaf 2015**

OGL ISBN Digidol 978 1 4734 3479 0 © Hawlfraint y Goron 2015

**Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn sail i fframwaith statudol newydd ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae Gweinidogion wedi egluro eu bod yn dymuno i elfennau craidd y fframwaith hwn fod yn eu lle ar gyfer mis Ebrill 2016, pan fydd y Ddeddf yn cael ei gweithredu.

Bydd y fframwaith yn cynnwys tair prif elfen, sef y Ddeddf ei hun, rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, a chodau ymarfer/canllawiau statudol. Bydd y tair elfen hyn yn gweithio gyda'i gilydd i ffurfio'r fframwaith y bydd gwasanaethau cymdeithasol yn gweithredu ynddo o fis Ebrill 2016.

**Y broses o wneud codau a rheoliadau o dan y Ddeddf**

Mae'r rheoliadau, y codau a'r canllawiau statudol wedi cael eu datblygu drwy broses ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol ac maent yn cael eu cyflwyno yn awr i randdeiliaid ledled Cymru er mwyn cael eu cyfraniad.

Bydd yr ymgynghoriad ar y Rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan y Ddeddf a'r broses o'u gosod gerbron y Cynulliad yn cael eu cynnal mewn dwy gyfres yn bennaf. Roedd y gyfres gyntaf ar gael ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos a ddechreuodd ym mis Tachwedd 2014. Bydd yr ymgynghoriad hwn ar yr ail gyfres yn cael ei gynnal rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2015. Y bwriad yw gosod y rheoliadau hyn gerbron y Cynulliad ym mis Tachwedd 2015 er mwyn rhoi cymaint o amser â phosibl i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol addasu i'r gofynion newydd cyn iddynt gael eu gweithredu ar 6 Ebrill 2016.

**Yr hyn y mae'r ail gyfres o reoliadau a chodau ymarfer yn ei gwmpasu**

Bydd yr ail gyfres yn creu system sy'n sicrhau canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya, yn ysgogi cydweithredu rhanbarthol ac yn gweithredu system o godi ffioedd, asesiadau ariannol a thalu am ofal. Bydd hefyd yn cefnogi trefn ar gyfer darparu eiriolaeth.

**Cwmpas y codau ymarfer o dan y Ddeddf**

Mae'r Cod Ymarfer statudol ar Eiriolaeth yn nodi pryd y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ystyried anghenion unigolyn o ran eiriolaeth ynghyd â'r ystod o amgylchiadau lle mae unigolyn o bosibl yn wynebu risgiau neu rwystrau ychwanegol a all gynyddu ei anghenion am gymorth eirioli.

Gall mynediad at gymorth eirioli sicrhau bod oedolion, gofalwyr a phlant a'u canlyniadau o ran llesiant yn ganolog, gan roi iddynt lais yn y canlyniadau hynny a rheolaeth ar y modd y cânt eu cyflawni. Mae'n cynorthwyo pobl i gyflawni eu llesiant eu hunain ac yn cyfrannu at fesur llwyddiant y gofal a'r cymorth hwn.

Roedd y Cod(au) Ymarfer a gyhoeddwyd o dan Gyfres 1 yn nodi'n eglur:

- bod yn rhaid i awdurdodau lleol gymryd barn, dymuniadau a theimladau person i ystyriaeth wrth adnabod, asesu a chynorthwyo pobl i gyflawni canlyniadau llesiant personol;
- bod yn rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i bwysigrwydd darparu cymorth priodol i alluogi pobl i wneud penderfyniadau am eu llesiant a chyfranogi mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau;
- bod yn rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod pobl yn cael eu cynnwys gymaint â phosibl yn eu gofal a'u cymorth, gan gynnwys cyfeirio at wasanaethau eirioli a'u cefnogi lle y bo'n briodol.

Mae'r Cod Ymarfer ar Eiriolaeth yn ategu'r Codau eraill hynny trwy bennu'r fframwaith trosfwaol ar gyfer adnabod a chefnogi anghenion eiriolaeth oedolion, gofalwyr a phlant ar adegau allweddol yn eu siwrne tuag at y canlyniadau llesiant sydd o bwys iddynt.

Mae'r Cod yn nodi'r gofynion ar awdurdodau lleol i sicrhau cymorth eirioli. Mae'n atgyfnerthu ac yn adeiladu ar y dyletswyddau o dan y Ddeddf i sicrhau bod barn, dymuniadau a theimladau person yn cael eu cymryd i ystyriaeth, bod cymorth priodol yn cael ei ddarparu a bod oedolion, gofalwyr a phlant yn cael eu cynnwys gymaint â phosibl yn eu gofal a chymorth. Mae'r Cod Ymarfer ar Eiriolaeth felly'n nodi:

- cydnabyddiaeth eglur i fanteision eiriolaeth;
- yr ystod o wasanaethau eirioli sydd ar gael i bobl;
- yr adegau allweddol pan fo'n rhaid i angen pobl am eiriolaeth gael ei asesu;
- yr amgylchiadau/amgylchedd sy'n effeithio ar angen pobl am eiriolaeth;
- pryd y mae'n rhaid darparu eiriolaeth annibynnol;
- yr amgylchiadau pan fo'n amhriodol i rai pobl fod yn eiriolwyr;
- y trefniadau ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i wasanaethau eiriolaeth;
- y trefniadau codi ffioedd.

Mae'r Cod yn cydnabod manteision y gwahanol fathau o gymorth eirioli sydd ar gael, gan gynnwys rôl y teulu, ffrindiau a rhwydweithiau cymorth ehangach yn ogystal a gweithwyr proffesiynol.